



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Rôl Awdurdod Cyhoeddi ar gyfer Fframweithiau Prentisiaethau Cymru

Dyddiad cyhoeddi: 4 Chwefror 2019
Gweithredu yn ofynnol: Ymatebion erbyn 29 Mawrth 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn am rôl Awdurdod Cyhoeddi Fframweithiau Prentisiaethau Cymru

Sut i ymateb

Dylech ymateb i'r ymgynghoriad gan ddefnyddio'r holiadur yng nghefn y ddogfen ac e-bostio'r ddogfen i DfES-Apprenticeshipunit@llyw.cymru erbyn 29 Mawrth 2019

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Uned Prentisiaethau
Cyfeiriad: Llywodraeth Cymru
Tŷ Afon
Heol Bedwas
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT

e-bost: DfES-Apprenticeshipunit@llyw.cymru

Rhiffôn: 03000 253706

Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd yn rheoli unrhyw wybodaeth a roddwch inni fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu eich data personol a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus am sut maent yn ymarfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion yn yr ymgynghoriad hwn neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau i'r dyfodol yn gweld unrhyw ymateb a anfonwch atom yn llawn. Os bydd Llywodraeth Cymru yn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn fanylach yna gallai gomisiynu trydydd parti achrededig i wneud y gwaith hwn (ee. sefydliad ymchwilio neu gwmni ymgynghori). Ni fydd y cyfryw waith ond yn cael ei wneud dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

I ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y sawl neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich enw neu'ch cyfeiriad, dylech nodi hynny'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb atom. Byddwn wedyn yn eu golygu cyn eu cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau dan y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata o'ch eiddo a ddelir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am hyd at dair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data mae gennych hawl i'r canlynol:

- cael gwybod am y data personol a ddelir andanoch a chael mynediad ato
- cael cywiro unrhyw wybodaeth anghywir yn y data hwnnw
- cael dweud (o dan rai amgylchiadau) nad ydych am inni ddefnyddio'r cyfan neu ran o'ch data personol
- cael eich data wedi'i ddileu (o dan rai amgylchiadau)
- cael eich data wedi'i symud (o dan rai amgylchiadau)
- gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein corff rheoleiddio annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael manylion pellach am y wybodaeth a ddelir gan Lywodraeth Cymru a'r defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am ymarfer eich hawliau dan GDPR, gweler y manylion cysylltu isod:
Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Y Rhagair

Fel rhan o'n Strategaeth Genedlaethol, rydym wedi dewis datblygu sgiliau fel un o'n blaenoriaethau allweddol. Rydym ni'n ail-lunio'r tirlun sgiliau i helpu dysgwyr iau a hŷn fel ei gilydd i ddod o hyd i gyfleoedd i wynebu heriau ein heconomi newidiol.

Mae prentisiaethau yn holl bwysig i lwyddiant hyn. Ein prif ymrwymiad yw 100,000 o brentisiaethau yn nhymor y Cynulliad hwn – ein targed yn *Ffyniant i Bawb*. Mae'n darged yr ydym ar y trywydd iawn i'w gyrraedd. Ond mae mwy i hyn nag ond niferoedd – mae'n ymwneud â datblygu ein harlwy o brentisiaethau i dyfu ein heconomi.

Mae prentisiaethau yn codi lefelau sgiliau er mwyn bodloni'r galw oddi wrth farchnadoedd heddiw ac i'r dyfodol. Dyma sut byddwn yn ysgogi cynhyrchiant, ffyniant a chymunedau mwy cadarn. Drwy ddatblygu system sgiliau fwy ymatebol gallwn ymateb yn well i newidiadau mewn diwydiant.

Mae sefydlu prentisiaethau sy'n cyd-fynd ag anghenion economi Cymru wrth wraidd ein polisi sgiliau, ac rydym yn datblygu ein system sgiliau i ymateb yn well i newidiadau mewn diwydiant.

Dyma ein blaenoriaethau ar gyfer prentisiaethau:

- Buddsoddi mewn sgiliau lefel uwch, yn enwedig ym maes STEM a meysydd technegol;
- Ysgogi cynhwysiant, cydraddoldeb a chyfle cyfartal;
- Ymateb i'r bylchau presennol mewn sgiliau a'r bylchau a ragwelir i'r dyfodol; a
- Chyflenwi prentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'n ddwyieithog.

Rydym eisiau gwella ansawdd prentisiaethau drwy weithredu trefniadau newydd i ddatblygu, cyhoeddi a chynyddu ymwybyddiaeth o fframweithiau prentisiaethau er mwyn bodloni anghenion unigolion a chyflogwyr.

Mae'r ymgynghoriad wyth wythnos hwn yn disgrifio'r problemau â'r trefniadau presennol ac yn amlinellu ein dull newydd o wella ansawdd y dull o gomisiynu, datblygu a chyhoeddi fframweithiau prentisiaethau yng Nghymru er mwyn bodloni'r anghenion economaidd newidiol hyn, fel bod fframweithiau yn dal i fod yn berthnasol ac yn drosglwyddadwy ar draws y DU. Mae hyn yn holl bwysig i lwyddiant parhaus y rhaglen Prentisiaethau. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn am rôl yr Awdurdod Cyhoeddi yng Nghymru i'r dyfodol.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymatebion i helpu i lunio datblygiadau'r Awdurdod Cyhoeddi i'r dyfodol, er mwyn sicrhau ein bod yn dal i wneud cynnydd ardderchog ar y cyd er mwyn llunio a chyflenwi prentisiaethau o ansawdd da yng Nghymru.

Ken Skates

Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Diben yr Ymgynghoriad

1. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn am rôl yr Awdurdod Cyhoeddi yn cyhoeddi Fframweithiau Prentisiaethau yng Nghymru ac a ddylai Gweinidogion Cymru ysgwyddo'r rôl hon a beth ddylai'r meini prawf ar gyfer cyhoeddi fframweithiau prentisiaethau fod er mwyn bodloni anghenion yr economi, cyflogwyr a phrentisiaid.

Cyd-destun Polisi

2. Rydym yn datblygu ffyrdd newydd o weithio i helpu i wella ansawdd fframweithiau prentisiaethau yng Nghymru drwy weithredu trefniadau newydd ar gyfer y swyddogaeth o lunio a chyhoeddi fframweithiau i fodloni anghenion unigolion a chyflogwyr. Bydd y darpariaethau hyn yn rhoi yn y system sbardun strategol newydd ac yn cynnal cadernid prentisiaethau, drwy ddarparu rheolaeth dros y broses o gyhoeddi fframweithiau yng Nghymru, a sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y diwydiant.
3. Ym mis Ebrill 2018 cyhoeddwyd ymgynghoriad technegol o'r enw *Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf*. Dogfen ddilydol oedd hon i Bapur Gwyn a gyhoeddwyd y flwyddyn flaenorol mewn ymateb i adolygiad yr Athro Hazelkorn o'r trosolwg ar addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru (<https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-04/180423-tertiary-education-and-research-commission-for-wales-consultation-document.pdf>). Y ddau brif argymhelliad yn yr adolygiad oedd: y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu gweledigaeth hollgynhwysol ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO); ac y dylai sefydlu corff hyd braich newydd a fyddai'n gyfrifol am drosolygu, a rhoi arweiniad a chyfarwyddyd strategol i'r sector. Ceisiodd yr ymgynghoriad farn am y ffordd y dylai'r corff newydd weithredu a chynhwysai gwestiynau am gefnogi a datblygu'r ddarpariaeth brentisiaethau yng Nghymru er mwyn helpu i fuddsoddi mewn twf a rhoi sylw i'r bwch mewn sgiliau. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Gorffennaf 2018 a cyhoeddwyd y canlyniad ar 12 Hydref 2018 (<https://beta.llyw.cymru/comisiwn-addysg-drydyddol-ac-ymchwil-i-gymru?>). Ymysg yr ymatebion cafwyd sylwadau yn dweud bod angen gwella prentisiaethau yng Nghymru yn awr ac na ellid aros nes bo'r Comisiwn wedi'i sefydlu.
4. Y cynigion yn y papur ymgynghori hwn yw dechrau'r newidiadau hyn yn y system i wella'r ffordd y caiff prentisiaethau eu llunio a'u cyhoeddi yng Nghymru drwy sicrhau bod Fframweithiau Prentisiaethau yn cael eu comisiynu, eu llunio a'u cyhoeddi mewn ffordd fwy cadarn er mwyn bodloni anghenion prentisiaid a chyflogwyr. Yn Atodlen 1 ceir diagram sy'n amlinellu'r broses o'r dechrau i'r diwedd newydd o ganfod angen, comisiynu, llunio fframwaith drwedd i gyhoeddi'r fframwaith. Fodd bynnag, nid yw'r ymgynghoriad hwn ond yn ceisio barn am rôl yr Awdurdod Cyhoeddi.

Beth yw'r prif broblemau?

5. Y Cynghorau Sgiliau Sector (CSSau) a'r Cyrff Sgiliau Sector (cyrff sector) sy'n cyflawni rôl Awdurdodau Cyhoeddi Prentisiaethau yng Nghymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, o ganlyniad i doriad yng nghyllid CSSau a chyrff sector ar ôl i Lywodraeth y DU ddiwygio prentisiaethau yn Lloegr (nid oes gan CSSau na chyrff sector rôl

mwyach yn y gwaith o lunio prentisiaethau yn Lloegr), mae capasiti'r sefydliadau hyn wedi lleihau'n aruthrol.

6. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno arweiniad i Awdurdodau Cyhoeddi gan ofyn iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau'n ddiuedd a sicrhau bod eu rôl a'u statws fel Awdurdod Cyhoeddi, fel llunwyr fframweithiau ac unrhyw rolau sefydliadol eraill yn cael eu cadw'n gwbl ar wahân fel nad yw eu buddiannau'n gwrthdaro. Fodd bynnag, ac ystyried y prinder capasiti yn llawer o'r sefydliadau hyn, mae'n annhebygol y gellir gwahanu rolau llunio/cyhoeddi yn hawdd. Felly, mae gweithdrefnau mwy cadarn yn ofynnol i fodloni gofynion datblygol prentisiaid a chyflogwyr yng Nghymru.

Ble'r ydyn ni nawr?

Fframweithiau Prentisiaethau

7. Mae llunwyr fframweithiau yn llunio neu'n adolygu fframweithiau Prentisiaethau i fodloni'r safonau gofynnol sy'n cael eu datgan ym Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (SASW). Caiff y fframweithiau wedyn eu hanfon i'r Awdurdodau cyhoeddi i'w hardystio a'u cyhoeddi. Mae Skills Development Scotland (SDS) wedi caffael Partneriaid Cyflawni (ar ran Llywodraeth Cymru) i gomisiynu fframweithiau prentisiaethau a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS). Yng Nghymru, ceir Cynghorau Sgiliau Sector (CSSau) a Chyrff Sector.
8. Ceir dros 200 o Fframweithiau Prentisiaethau yng Nghymru ar hyn o bryd (rhai ar lefelau amryfal; maent i'w gweld ar Fframweithiau Prentisiaethau Ar-lein¹. Mae pob fframwaith yn cynrychioli pecynnau dysgu arbennig. O fewn pob fframwaith prentisiaeth, mae gofyn i ddysgwyr gwblhau cymwysterau cymeradwy a, lle bo'n briodol, cymwysterau Sgiliau Hanfodol penodol. Mae'r prentisiaethau yn arwain at gymhwyster ar Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW).
9. Caiff prentisiaethau eu darparu drwy gontractau rhwng Llywodraeth Cymru a rhwydwaith o ddarparwyr sy'n cael eu caffael.

Manyleb Safonau Prentisiaethau (SASW)

10. Mae Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (SASW) (<https://gov.wales/docs/dcells/publications/161014-sasw-cy.pdf>) yn datgan gofynion sylfaenol fframweithiau prentisiaethau. Mae'n amlinellu'r math a'r lefel o gymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer fframweithiau prentisiaethau ar bob lefel, y gofynion Sgiliau Hanfodol, y sgiliau cyflogadwyedd sy'n angenrheidiol, a lefel yr hyfforddiant yn y swydd neu oddi wrth y swydd, a'r oriau dysgu dan arweiniad arfaethedig sy'n gysylltiedig â chwblhau'r fframwaith.

Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru (WAAB)

11. Sefydlwyd Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru (WAAB) ym mis Ebrill 2018 ac mae'n Fwrdd annibynnol sydd dan arweiniad mentrau, ac mae arno gynrychiolwyr o'r byd busnes, Undebau Llafur, Cyrff Addysg Bellach a Llywodraeth Cymru. Nod

¹ <http://www.afo.sscalliance.org/cymraeg>

WAAB yw darparu i Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (WESB) a Llywodraeth Cymru gyngor ac argymhellion ar faterion sy'n ymwneud â chynnwys fframweithiau prentisiaethau a blaenoriaethau o safbwynt eu llunio yng Nghymru.

12. Mae Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru (WAAB) yn chwarae rhan allweddol i gynghori a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar y blaenoriaethau ar gyfer comisiynu fframweithiau prentisiaethau er mwyn bodloni'r angen economaidd ac mae'n nodi sectorau lle gall prentisiaethau newydd wneud gwahaniaeth gwirioneddol i gyflogwyr a phrentisiaid fel ei gilydd. Wrth gyflawni'r rôl hon, bydd WAAB yn rhoi ystyriaeth i'r anghenion sgiliau parhaus ac i'r dyfodol, y data a'r adroddiadau a gaiff eu cynhyrchu gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol mewn Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau ac mewn Ymchwil i'r Farchnad Lafur i sicrhau bod y fframweithiau iawn yn cael eu comisiynu i fodloni anghenion yr economi.

Awdurdod Cyhoeddi

13. Ar ôl i fframwaith prentisiaethau gael ei lunio, bydd y cyrff a ddynodir gan Weinidogion Cymru yn eu 'cyhoeddi' – caiff Gweinidogion Cymru ddynodi Awdurdodau Cyhoeddi dan y Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu (ASCL) 2009. Swyddogaeth yr Awdurdod Cyhoeddi yw ardystio bod fframwaith newydd neu ddiwygiedig yn bodloni safonau'r diwydiant a'r gofynion sylfaenol a nodir yn SASW. Math o broses ddilysu yw'r swyddogaeth gyhoeddi. Os yw'r fframwaith yn bodloni'r gofynion ansawdd a gofynion SASW, caiff y fframwaith ei gyhoeddi ar *Fframweithiau Prentisiaethau Ar-lein*² fel un o'r fframweithiau sydd ar gael yng Nghymru. Mae'r Awdurdod Cyhoeddi wedyn yn hysbysu Gweinidogion Cymru bod y fframwaith naill ai wedi'i gyhoeddi neu ei dynnu'n ôl yn ei sector(au) prentisiaethau. Ni chaiff Gweinidogion Cymru ond dynodi un corff i gyhoeddi Fframweithiau prentisiaethau Cymru ar gyfer sector penodol. Mae Awdurdodau Cyhoeddi Cymreig yn atebol i Weinidogion Cymru a byddant yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru ac yn glynu wrth yr arweiniadau a gyhoedda.
14. Mae Gweinidogion Cymru wedi dynodi'r swyddogaeth Awdurdodau Cyhoeddi i'r Cynghorau Sgiliau Sector (CSSau) a chyrff sector. Ceir 17 o Awdurdodau Cyhoeddi yng Nghymru. Mae Atodlen 1 yn rhestr o'r Awdurdodau Cyhoeddi dynodedig presennol.

Awdurdod Ardystio

15. Awdurdod Ardystio Cymru yw'r Ffederasiwn Sgiliau a Safonau'r Sector Diwydiant. Fel Awdurdod Ardystio Cymru, mae'r Ffederasiwn yn cyhoeddi tystysgrifau ar ôl i brentisiaethau gael eu cwblhau, o safbwynt fframwaith prentisiaethau, a darperir y dystiolaeth angenrheidiol o gwblhau a'r ffi i'r Ffederasiwn.
16. Mae Rheoliadau Prentisiaethau (Dyrodidi Tystysgrifau Prentisiaeth) (Cymru) 2013 yn datgan manylion y broses i'w dilyn ar gyfer cyhoeddi tystysgrifau prentisiaethau ac fe'u gwneir gan ddefnyddio'r pwerau yn Adran 7, 8 a 9 o Ddeddf ASCL.
17. Ni fwriedir gwneud dim newidiadau i'r rôl hon.

² <http://www.afo.sscalliance.org/frameworkslibrary/index.cfm#current>

Tystiolaeth ar gyfer newid

18. Mae angen sicrhau bod y fframweithiau prentisiaethau hynny sy'n cael eu llunio a'u cyhoeddi yn bodloni anghenion yr economi, cyflogwyr ac unigolion. Mae angen sicrhau bod rôl y lluniwr fframweithiau a rôl yr awdurdod cyhoeddi yn gwbl ar wahân i sicrhau bod fframweithiau yn bodloni safonau'r diwydiant. Ar hyn o bryd, gan fod y CSSau a'r Cyrff sector yn cyflawni'r ddwy rôl hon, ni ellir dangos eu bod bob amser yn ddiudedd, mae potensial i'r naill gorff neu'r llall gael mantais a gallai hynny effeithio ar yr ansawdd.
19. Ni ddylid ond llunio fframweithiau prentisiaethau os ceir galw amdanynt a dim ond os yw'r rôl waith/galwedigaeth ar gyfer y brentisiaeth yn bodloni'r angen am sgiliau yn awr neu i'r dyfodol. Mae hyn yn sicrhau bod i'r brentisiaeth hygyrdded ac enw da ar draws y diwydiant neu'r sector, a rhydd iddi hefyd werth yn y tymor hwy. Mae Adran 31 o Ddeddf ASCL yn diffinio cymwyseddau galwedigaethol perthnasol fel y cymwyseddau sy'n ofynnol i gyflawni'r sgil, y grefft neu'r alwedigaeth y mae'r fframwaith yn berthnasol iddynt ar y lefel sy'n ofynnol yn y fframwaith.
20. Fel yr amlinellir ym mharagraff 5, dan ddiwygiadau Llywodraeth y DU, nid oes gan CSSau na chyrff sector ran i'w chwarae mwyach mewn llunio prentisiaethau yn Lloegr; digwyddodd hyn yn sgil cwtogi'n sylweddol ar eu cyllid ac mae hyn wedi cael effaith ddifrifol ar eu gallu i gyflawni'r rôl fel awdurdod cyhoeddi.
21. Fel y nodwyd yn flaenorol, ceir ar hyn o bryd 17 o Awdurdodau Cyhoeddi yng Nghymru sy'n cefnogi ystod o sectorau galwedigaethol. Ar hyn o bryd, pan fo Awdurdod Cyhoeddi yn rhoi'r gorau i fasnachu, bydd y Ffederasiwn Sgiliau a Safonau'r Sector (FISSS) yn ysgrifennu at y Gweinidog ac yn gofyn i'r rhan o'r sector yr oedd yr Awdurdod Cyhoeddi yn gyfrifol amdani drosglwyddo i gorff arall. Mae FISSS yn cynrychioli, yn hyrwyddo ac yn cefnogi CSSau a chyrff sector, ac mae pob un o'r rhain yn aelod o'r FISSS. Yn y gorffennol, mae hyn wedi golygu trosglwyddo'r rhan hon o'r sector i Awdurdod Cyhoeddi arall sydd â'r capasiti a'r arbenigedd i gyflawni'r rôl. Fodd bynnag, gan fod nifer yr Awdurdodau Cyhoeddi wedi syrthio, bydd yn mynd yn fwyfwy anodd i weddill y CSSau a'r cyrff sector ysgwyddo cyfrifoldebau newydd am rannau o'r sector – mae'n annhebygol y byddant yn meddu ar yr ystod lawn o arbenigedd i gyflawni'r swyddogaeth yn llwyddiannus.
22. Cymerwyd pwerau yn Neddf Dadreoleiddio 2015 i ganiatáu'r dewis i Weinidogion Cymru gyhoeddi fframweithiau prentisiaethau yn ychwanegol at y pwerau cyfredol i ddirprwyo un arall i wneud hynny. Mae'r pwerau hyn bellach yn weithredol, ac mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i weithredu fel yr Awdurdod Cyhoeddi dros sectorau prentisiaethau yng Nghymru, os mabwysiadir y rôl hon.

Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni?

Fframweithiau

23. Rydym wrthi'n adolygu'r broses o lunio fframweithiau prentisiaethau yng Nghymru i gefnogi'r galw oddi wrth gyflogwyr a'r economi; gan wella mynediad, cydraddoldeb

a chyfle cyfartal a fydd yn gwneud sgiliau a chymwyseddau yn fwy addas i'w trosglwyddo ar draws Cymru.

24. Rhaid i'r holl fframweithiau a gomisiynir fodloni anghenion yr economi, gan gynnwys a yw wedi'i enwi fel un o'r blaenoriaethau yng Nghynlluniau'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, a oes angen llunio fframweithiau newydd oherwydd y newidiadau mewn cymwysterau, a oes galw sylweddol oddi wrth gyflogwyr ac a yw'n gefnogol i gyfeiriad y polisi prentisiaethau yn gyffredinol.
25. I sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu bodloni, caiff yr holl fframweithiau eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru (WAAB). Wrth lunio fframweithiau rhaid ymgynghori â'r rhanddeiliaid (gan gynnwys cyflogwyr a darparwyr) a chael mewnbwn gan arbenigwyr technegol. Bydd y broses gadarn newydd hon yn sicrhau bod fframweithiau'n cael eu llunio mewn ffordd gyson a chadarn gyda'r nod gyffredinol o fodloni anghenion yr economi a chyflogwyr. Mae WAAB wrthi'n cwblhau'r trefniadau ar gyfer ei rôl yn y broses gomisiynu a bydd gwybodaeth bellach ar gael yn fuan.

Awdurdod Cyhoeddi

26. Cynigir bod Gweinidogion Cymru yn ysgwyddo rôl yr Awdurdod Cyhoeddi yng Nghymru.
27. Bydd y gwelliannau i sicrhau bod dulliau mwy cadarn yn cael eu defnyddio i gomisiynu a llunio fframweithiau, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, ymgynghori â phaneli o arbenigwyr yn y sector a chael cymeradwyaeth gan WAAB ar gyfer pob fframwaith, yn golygu y bydd yr holl fframweithiau a gyflwynir i'r Awdurdod Cyhoeddi o ansawdd da ac y byddant yn bodloni anghenion yr economi.
28. Byddai'r Awdurdod Cyhoeddi yn darparu mesur ansawdd annibynnol terfynol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â SASW a chadarnhau eu bod wedi cael eu hargymell gan WAAB. Mae'r rolau wedi'u gwahanu'n amlwg dan y broses newydd hon.

Crynodeb o'r Cynigion

29. Gan gydnabod y problemau sylfaenol y tynnwyd sylw atynt drwy'r ymgynghoriad, cynigir na fyddai Gweinidogion Cymru yn dynodi'r swyddogaeth Gyhoeddi i'r CSSau na'r cyrff sector mwyach. Felly, byddai Gweinidogion Cymru yn cyflawni'r swyddogaeth hon ar gyfer pob un o'r sectorau prentisiaethau a amlinellir yn y Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (ASCLA). Mae'r pwerau yn Neddf Dadreoleiddio 2015 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi fframweithiau prentisiaethau ac mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn am beth ddylai'r rôl hon fod.
30. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn helpu i siapiro'r trefniadau newydd i sicrhau bod ansawdd, prosesau, trefn lywodraethu a meini prawf rôl yr awdurdod cyhoeddi yn gymwys ac yn addas at y diben. Dyma ein cynigion:


- Gwella ansawdd fframweithiau prentisiaethau yng Nghymru drwy weithredu trefniadau newydd i ddiogelu'r drefn o gyhoeddi fframweithiau, fel bod fframweithiau yn dal i fod yn berthnasol ac yn drosglwyddadwy ar draws y DU a sicrhau bod rôl y lluniwr a'r awdurdod cyhoeddi wedi'u gwahanu'n gyfan gwbl.
- Cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer llunio a chyhoeddi fframweithiau er mwyn bodloni anghenion unigolion a chyflogwyr. Bydd y darpariaethau hyn yn rhoi yn y system sbardun strategol newydd ac yn cynnal cadernid prentisiaethau, drwy ddarparu rheolaeth dros y broses o gyhoeddi fframweithiau yng Nghymru, a sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y diwydiant.
- Ni fyddai Gweinidogion Cymru yn dynodi'r swyddogaeth Gyhoeddi i'r CSSau a'r cyrff sector mwyach oherwydd bod ganddynt lai o gapasiti. O'r herwydd, Gweinidogion Cymru a fyddai'n cyflawni'r swyddogaeth hon ar gyfer pob sector prentisiaeth. Rydym yn ceisio sylwadau am a ddylai Gweinidogion Cymru ysgwyddo rôl yr Awdurdod Cyhoeddi er mwyn cyhoeddi Fframweithiau Prentisiaethau yng Nghymru. Os felly, sut dylai hyn edrych? Os na ddylai, pa ddewisiadau eraill y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried i wella rôl yr Awdurdod Cyhoeddi yng Nghymru?

31. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn helpu i siapiau rôl yr Awdurdod Cyhoeddi yng Nghymru i'r dyfodol i sicrhau bod ansawdd, prosesau, trefn lywodraethu a meini prawf rôl yr awdurdod cyhoeddi yn gymwys ac yn addas at y diben. Byddai'r broses newydd yn dechrau ym Mehefin 2019.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- A ddylai Llywodraeth Cymru ysgwyddo'r pŵer neu pa ddewisiadau eraill sydd ar gael i sicrhau bod y corff sy'n llunio fframweithiau a'r Awdurdod Cyhoeddi yn gwbl ddiuedd wrth gyflawni eu rolau?
- Pa broses a meini prawf y dylid eu defnyddio wrth gyhoeddi fframwaith?
- Beth yw'r disgwyliadau ar yr awdurdod cyhoeddi wrth gyhoeddi fframwaith?
- Pa fesurau ansawdd a chydymffurfiaeth ddylai fod ar waith wrth gymeradwyo, ardystio a chyhoeddi fframwaith, mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y cymwysterau priodol yn cael eu cynnwys?
- A ddylai'r Awdurdod Cyhoeddi roi ar waith unrhyw fesurau ychwanegol i sicrhau bod y fframwaith yn bodloni anghenion cyflogwyr a dysgwyr?
- A oes unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech i Lywodraeth Cymru fod yn ymwybodol ohonynt o safbwynt yr ymgynghoriad hwn?

Fframweithiau prentisiseithau Proses o'r dechrau i'r diwedd



Awdurdodau Cyhoeddi Cymreig Dynodedig

	Awdurdod Cyhoeddi	Cyngor Sgiliau Sector / Corff Sector	Y Sector dan Sylw
1	CITB	Cyngor Sgiliau Sector (hefyd Fwrdd Hyfforddiant Diwydiant y sector)	Adeiladu
2	Cogent Skills	Cyngor Sgiliau Sector	Sectorau gweithgynhyrchu cemegol, gwyddor niwclear, cloddio am olew a nwy
3	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol	Cyngor Sgiliau Sector	Sectorau celfyddydau, treftadaeth ddiwylliannol, crefft a dylunio
4	Creative Skillset	Cyngor Sgiliau Sector	Cyfryngau a gweithgynhyrchu
6	Energy & Utility Skills	Cyngor Sgiliau Sector	Sectorau cyflenwadau trydan, nwy a dŵr a rheoli gwastraff
6	Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu Peirianeg	Corff Sector	Sector adeiladu peirianeg
7	Sefydliad y Diwydiant Moduro	Cyngor Sgiliau Sector	Sectorau modurol, logisteg cludo nwyddau a morol
8	Instructus (Skills CFA yn ffurfiol)	Corff Sector	Sector sgiliau busnes Sector peirianeg gwasanaethau adeiladau, gwasanaethau eiddo, rheoli cyfleusterau a galwedigaethau cysylltiedig (Summit Skills yn ffurfiol) Sector busnes a thechnoleg gwybodaeth
9	Lantra	Cyngor Sgiliau Sector	Sector amgylcheddol a diwydiannau'r tir
10	National Skills Academy - Food and Drink (NSAFD)	Cyngor Sgiliau Sector	Sector gweithgynhyrchu a phrosesu bwyd a diod. Sectorau argraffu, cloddio am fwynau a'u prosesu, iechyd a diogelwch, dodrefn, gwydr, cerameg, haeniadau, papur, gwydrau, cynhyrchion adeiladu a choed.
11	People 1 st	Cyngor Sgiliau Sector	Sectorau croeso, hamdden, teithio a thwristiaeth, cludiant teithwyr ac adwerthu
12	SEMTA	Cyngor Sgiliau Sector	Sector gwyddoniaeth, peirianeg a thechnolegau gweithgynhyrchu
13	Skills Active	Cyngor Sgiliau Sector	Sectorau hamdden llesol, dysgu a lles a thrin gwallt a harddwch
14	Skills for Care and Development	Cyngor Sgiliau Sector	Sector gofal cymdeithasol a gofal plant a phobl ifanc
15	Skills for Health & Skills for Justice (cawsant eu huno ym mis Medi 2015 / brandiau gwahanol)	Cyngor Sgiliau Sector	Sector gofal iechyd Sectorau cyfiawnder, diogelwch cymunedol a gwasanaethau cyfreithiol
16	Skills for Security	Corff Sector	Sector diogelwch

17	UK Textiles & Fashion Association	Corff Sector	Ffasiwn a thecstilau a galwedigaethau cysylltiedig
----	-----------------------------------	--------------	--